


Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Sarah Sharpe

Croesawu amrywiaeth: Taith gwarchodwr plant tuag at greu amgylchedd gwrth-hiliol

## Cefndir

Mewn tref fach yng Nghymru, mae gwarchodwr plant cofrestredig wedi trawsnewid ei lleoliad i greu esiampl ardderchog o amgylchedd cynhwysol a gwrth-hiliol, gan ddangos pŵer dysgu parhaus a meddwl agored wrth ddarparu addysg blynyddoedd cynnar.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Ar ôl cwblhau hyfforddiant DARPL (Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth), cymerodd y gwarchodwr plant hwn gamau rhagweithiol er mwyn creu amgylchedd mwy cynhwysol. Aeth ati i wneud y canlynol:

- Ailasesu ac amrywio ei hadnoddau, gan gynnwys llyfrau a theganau
- Cyflwyno pensiliau lliw croen a doliau rhyngwladol dilys
- Creu arddangosfeydd sy'n dathlu amrywiaeth
- Cyflwyno Tirion, tedi rhywedd-niwtral â mewnblaniad yn y cochlea
- Gosod drychau o gwmpas y lleoliad i ddatblygu ymdeimlad o hunaniaeth ymhlith y plant
- Cynnal trafodaethau agored am wahaniaethau a chynwysoldeb
- Rhoi hyfforddiant ar waith i gefnogi datblygiad cymdeithasol ac emosiynol

Mae'r astudiaeth achos hon yn pwysleisio pŵer datblygiad proffesiynol a'r effaith gadarnhaol y gall hyn ei chael ar leoliadau'r blynyddoedd cynnar. Drwy groesawu arferion gwrth-hiliol a hyrwyddo amrywiaeth, mae'r gwarchodwr plant hwn wedi creu amgylchedd lle gall y plant ffynnu, dysgu, a datblygu sgiliau hanfodol i greu cymdeithas fwy cynhwysol.

## Effaith...

- Mae'r plant bellach yn teimlo'n gyfforddus wrth ofyn cwestiynau am wahaniaethau
- Maent yn bwrw ati i ddathlu amrywiaeth ymysg ei gilydd
- Mae'r lleoliad yn hyrwyddo empathi, tosturi, a datblygiad cymdeithasol ac emosiynol
- Mae'r plant yn datblygu sgiliau i addysgu eraill am gynwysoldeb
- Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin hyder wrth ymdrin â sgyrsiau anodd
- Mae'r amgylchedd bellach yn hyrwyddo gwrth-hiliaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol

“*Mae'r plant i gyd wedi magu hyder mor anhygoel yn yr awyr agored ac mae'n bleser mawr ac mor werth chweil eu gweld yn hapus ac yn hyderus yn yr ardaloedd awyr agored a bob amser yn cymryd rhan yn yr hyn ddiddordeb iddynt.*”